



Ysgol Pentreuchaf

97. Polisi Gwirfoddolwyr

Nod

Galluogi'r ysgol i fanteisio ar gyfraniad oedolion addas i gyfoethogi ac ymestyn profiadau y plant sydd yn ein gofal.

Amcanion

1. Sicrhau bod pawb yn deall pwysigrwydd eu cyfraniad ond eu bod yn atebol i'r athrawes ac mai hi sydd yn gyfrifol am bob penderfyniad yn y pen draw.
2. Sicrhau mwy o sylw unigol i'r plant e.e. wrth ddarllen.
3. Mae'n bwysig datblygu dealltwriaeth o'r ffyrdd y mae'r ysgol yn gweithio, trefn disgyblu a.y.y.b.

Canllawiau

1. Gwirfoddolwyr sydd heb fod yn rhieni fydd yn cynorthwyo o fewn y dosbarth, gwrando ar blant yn darllen a.y.y.b. onibai bod amgylchiadau arbennig.
2. Byddwn yn gofyn am gymorth rhieni gyda gweithgareddau megis teithiau neu ymweliadau gan ddisgyblion, a gweithgareddau y tu allan i oriau'r ysgol.
3. Byddwn yn gofyn am gymorth rhieni ar brosiectau sydd o fudd i'r ysgol, megis creu adnoddau, dodrefn, peintio a.y.y.b.
4. Byddwn yn ceisio sicrhau fod ein gwirfoddolwyr yn ddwyieithog gan amlaf, yn enwedig os ydynt i fod yn rhai tymor-hir, er y rhydd hyn gyfle weithiau i blant weithio ar un maes drwy gyfrwng yr iaith Saesneg a defnyddio'r iaith honno i bwrpas real.
5. Anogir pob gwirfoddolwr i dod yn gyfarwydd â threfn a rheolau disgyblaeth, safon iaith, dangos parch at blant a.y.y.b.
6. Os bydd gwirfoddolwr newydd yn bwriadu bod yn yr ysgol yn rheolaidd yn y tymor hir, mae'n bosibl sicrhau gwiriad heddlu iddynt, ond nid yw'n angenrheidiol.
7. Os bydd gwirfoddolwyr (gan gynnwys rhieni) yn cludo plant mewn ceir, bydd yn ofynnol iddynt lewni ffurflen bwrpasol yn cadarnhau fod ganddynt drwydded yrru gyfredol ac yswiriant addas. Ceisiwn sicrhau na fydd plentyn ar ei ben ei hun gyda gwirfoddolwr mewn car.
8. Gweler "Canllawiau i oedolion sy'n gwirfoddoli i gynorthwyo mewn ysgolion" - Cyngor Sir Gwynedd, Adran Addysg am gyngor pellach.

Ni chaiff unrhyw wirfoddolwr ei adael ar ei ben/phen ei hun gyda phlant e.e. bydd darllenwyr yn darllen gyda phlant mewn rhan o'r dosbarth

Casgliad

Gall Gwirfoddolwyr gyfoethogi bywyd yr ysgol i'r staff a'r plant trwy ehangu gorwelion a chynnig profiadau gwahanol sydd yn hybu datblygiad y plant.

Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd: _____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: _____